Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Awst 2020

Annwyl riant/warcheidwad

Cyf: Dechrau'r tymor ym mis Medi 2020

Ysgrifennaf atoch gyda manylion pellach ynghylch dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Byddwch yn gwybod o'r llythyr blaenorol a anfonwyd atoch ym mis Gorffennaf mai ein bwriad yw i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol mewn grwpiau blwyddyn yn unol â'r amserlen ganlynol:

Dydd/dyddiad	Grwpiau blwyddyn yn yr ysgol o'r dyddiad hwn ymlaen
Dydd Iau 3ydd o Fedi	Blwyddyn 7 ac 11 yn unig
Dydd Gwener 4ydd o Fedi	Blwyddyn 7, 10 ac 11 yn unig
Dydd Llun 7fed o Fedi	Blwyddyn 7, 9, 10 ac 11 yn unig
Dydd Mawrth 8fed o Fedi	Grwpiau Blwyddyn i gyd: 7, 8, 9, 10 ac 11

- Mae dydd Mawrth (1 Medi) a dydd Mercher (2il Medi) yn cael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer cynllunio a pharatoi. Ni fydd disgyblion yn bresennol ar y dyddiau hyn.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithredu gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau dychweliad diogel a hapus i'n holl ddisgyblion, ac i sicrhau ein bod yn lleihau risg cymaint â phosib. **Mae'r canllawiau atodedig yn darparu gwybodaeth manwl am ein gweithdrefnau dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Dyma rai negeseuon cyffredinol:**

1. **Trafnidiaeth ysgol**
   Bydd trafnidiaeth i'r ysgol yn rhedeg fel arfer ar gyfer pob disgybl, â gweithdrefnau diogelu priodol mewn lle. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Penfro yn annog rhieni a gofalwyr i ddod â'u plentyn/plant i'r ysgol lle bynnag y bo modd, neu i annog cerdded neu feicio.

2. **Cyrraedd, gadael a strwythur y diwrnod ysgol**

- Mae dechrau a diwedd y diwrnod ysgol yn aros yr un fath. **Bydd y gwersi yn cychwyn am 8:50yb.** Ni fydd cyfnod cofrestru, a bydd presenoldeb disgyblion yn cael ei gofnodi ym mhob gwers. Bydd pob disgybl yn derbyn gwersi 5 x 1 awr yn ystod y dydd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Bydd cyfnodau egwyl a chinio yn cael eu darwahanu ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

3. **Grwpiau Disgyblion, addysgu ac ystafellu.**
   Bydd disgyblion CA3 (Bl. 7-9) yn gweithredu ar ffurf 'pods', ac yn aros mewn un ystafell addysgu. Bydd yr athrawon yn mynd at y disgyblion yn unol â'r amserlen, gan gynnwys athrawon a fyddai fel arfer yn dysgu mewn ystafelloedd dosbarth arbenigol fel Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd AG yn cael ei gymryd yn yr awyr agored, neu yn y Gampfa/Ganolfan Hamdden, yn ddibynnol ar y tywydd.

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

- **Bydd disgyblion CA4 (Bl. 10-11) yn gweithredu mewn 'pods' grŵp blwyddyn, yn symud rhwng ystafelloedd, ac yn mynychu ystafelloedd arbenigol yn ôl eu hamserlenni.** Felly, bydd pynciau fel TGCh a Gwyddoniaeth yn cael eu dysgu mewn ystafelloedd arbenigol.

Mae'r canllawiau'n argymell y dylai ysgolion anelu at grwpio disgyblion fel 'pods' cymaint â phosibl, gyda'r nod bod disgyblion ym mhob 'pod' yn rhyngweithio ag eraill yn yr un 'pod'. Cydnabyddir y dylid dod o hyd i gydbwysedd mewn ysgolion uwchradd rhwng mynediad i'r cwricwlwm llawn (er enghraifft, dewisiadau opsiwn Blwyddyn 10/11) a mynediad at gyfleusterau addysgu arbenigol. Mae cwricwlwm CA3 yn caniatáu ar gyfer grwpiau 'pod' llai o faint a all aros gyda'i gilydd, a dilyn yr un cwricwlwm.

3. **Gweithdrefnau Diogelu**
    - **Gweithdrefnau cyfredol**: bydd y system unffordd, a'r gweithdrefnau glanweithio dwylo yn cael eu cynnal. Anogir pob disgybl i gadw pellter cymdeithasol gyda'i gilydd, a bydd gofyn iddynt gadw pellter o 2 fetr rhyngddynt hwy a'r staff.
    - **Trefniadau glanhau:** Bydd y trefniadau glanhau dyddiol yn parhau.
    - **'Zoning':** Er mwyn cadw disgyblion o fewn eu grwpiau/'pods' cymdeithasol eu hunain, bydd 'zones' yn cael eu creu i'r disgyblion yn ystod amser egwyl a chinio.

Rwy'n gobeithio y bydd y pwyntiau uchod, a'r daflen ganllaw, yn helpu i dawelu'ch meddwl y bydd yr ysgol yn parhau i flaenoriaethu diogelwch disgyblion a staff wrth i ni gymryd camau i weithio'n arferol. Yr allwedd yw cydbwyso'r risg a achosir gan 'COVID' yn erbyn risg colli dysgu a'r effaith emosiynol negyddol y mae'r 'lockdown' wedi'i chael ar rai o'n disgyblion. Credaf y bydd y strategaethau uchod, sy'n adeiladu ar y rhai a weithredwyd cyn gwyliau'r haf, yn caniatáu inni wneud hyn. Mae'r asesiad risg ysgol hefyd wedi'i ddiweddaru, a bydd yn parhau i gael ei ddiwygio yng ngoleuni ein profiadau a'n canllawiau.

Unwaith eto, rydym yn edrych ymlaen at weld ein disgyblion ym mis Medi, lle bydd y ffocws ar ddychwelyd i 'normal', cyn belled ag y bo modd, yn flaenoriaeth inni. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n hamser addysgu i'n galluogi i asesu anghenion dysgu unigol pob un o'n disgyblion. Efallai y bydd angen mwy o gefnogaeth ar rai disgyblion nag eraill, ac mae gennym y gallu i nodi rhain a gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a'r disgyblion eu hunain i ddarparu'r gefnogaeth y bydd angen arnynt. Bydd eraill wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y 'lockdown', ac edrychwn ymlaen at ymestyn a herio'r disgyblion hyn ymhellach ar ôl dychwelyd.

Diolch eto am eich cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir

Mr P Edwards
Pennaeth